# Gwybodaeth Caniatâd Rhieni ar gyfer Gwerthuso Effaith *Mae'ch Arian o Bwys*

[CLICIWCH YMA I LENWI'R FFURFLEN CANIATÂD RHIENI]

---




Gwerslyfr addysg ariannol yw *Mae'ch Arian o Bwys* a gynhyrchwyd gan Young Money, sy'n rhan o Young Enterprise.

Gyda chyllid gan Martin Lewis OBE a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, mae argraffiadau newydd, perthnasol ac wedi'u diweddaru o *Mae'ch Arian o Bwys* wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru (yn Gymraeg a Saesneg), ac anfonwyd 75 o gopïau at yr holl ysgolion canol ac uwchradd a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru yn yr hydref 2021.

Mae fersiynau digidol o'r gwerslyfr ar gael hefyd ar wefan Young Money y gall rhieni gael atynt am ddim.

Mae Prifysgol Caeredin, ochr yn ochr â Young Money a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, yn cynnal gwerthusiad o effaith y gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys* a'r adnoddau ar gyfer athrawon ar wybodaeth, sgiliau a hyder athrawon a phobl ifanc.

Rydym yn ceisio eich caniatâd i'ch plentyn/plant gymryd rhan yn y gwerthusiad. Mae'r dudalen nesaf yn rhoi gwybodaeth am y gwerthusiad ac fe'i dilynir gan ffurflen fer y gallwch gofnodi'ch caniatâd arni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad, cysylltwch â'r ymchwilydd arweiniol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin, sef Tina.Harrison@ed.ac.uk neu Reolwr y Rhaglen yn Young Enterprise, sef Cerys.Wakeman@y-e.org.uk.

Diolch yn fawr am eich ystyriaeth
Tîm Gwerthuso *Mae'ch Arian o Bwys*

## GWYBODAETH AM Y GWERTHUSIAD

Dylai'r wybodaeth ganlynol eich helpu i benderfynu p'un ai caniatáu i'ch plentyn/plant gymryd rhan yn y gwerthusiad o effaith *Mae'ch Arian o Bwys*.

**Beth yw diben y gwerthusiad?**
Helpu Young Money a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau i ddeall effaith y gwerslyfr newydd *Mae'ch Arian o Bwys* a'r adnoddau ar gyfer athrawon ar wybodaeth, sgiliau a hyder pobl ifanc ac athrawon.

**Pam mae fy mhlentyn yn cael ei wahodd i gymryd rhan?**
Mae ysgol/athro/athrawes eich plentyn wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad o effaith a sicrhau bod arolygon ar gael i'r bobl ifanc maen nhw'n eu haddysgu (gyda chaniatâd rhieni).

**A oes rhaid i'm plentyn gymryd rhan?**
Nac oes – chi a'ch plentyn piau'r dewis. Bydd pob person ifanc yn dal i allu elwa o unrhyw addysgu neu weithgareddau yn yr ysgol sy'n defnyddio'r gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys* p'un a ydynt yn cymryd rhan yn y gwerthusiad ai peidio.

**Beth fydd yn digwydd os rhoddaf ganiatâd i'm plentyn gymryd rhan?**
Bydd athro/athrawes eich plentyn yn ei wahodd i gwblhau arolwg yn yr ysgol sy'n gofyn cwestiynau am ei brofiadau o ddysgu am arian yn yr ysgol ac unrhyw ddefnydd o'r gwerslyfr a'r adnoddau *Mae'ch Arian o Bwys*. Bydd yr arolwg yn cael ei roi ar ôl i'r gwerslyfr *Mae'ch Arian o Bwys* gael ei ddefnyddio yn ei ysgol. Efallai bydd nifer fach o bobl ifanc yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn grŵp ffocws hefyd (yn cynnwys tua 8-10 o bobl ifanc o'u dosbarth) i glywed yn uniongyrchol am brofiadau pobl ifanc pan fydd ysgolion wedi defnyddio'r llyfr a'r adnoddau addysgu. Bydd y grwpiau ffocws hyn yn cael eu hwyluso gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin a bydd athro/athrawes/addysgwr o ysgol eich plentyn yn bresennol.

Hyd yn oed gyda'ch caniatâd, efallai bydd eich plentyn yn dewis peidio â chymryd rhan yn yr arolygon neu'r grŵp ffocws, a gall y naill neu'r llall ohonoch dynnu'ch caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy gysylltu ag athro/athrawes eich plentyn neu'r cysylltiadau a restrir isod.

**A oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig os bydd fy mhlentyn yn cymryd rhan?**
Ni ddisgwylir unrhyw risgiau i'ch plentyn trwy gymryd rhan yn y gwerthusiad.

**Beth yw'r manteision posibl os bydd fy mhlentyn yn cymryd rhan?**
Bydd yn helpu Young Money a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau i barhau i ddarparu adnoddau effeithiol sy'n cynorthwyo athrawon i addysgu pobl ifanc am arian a gwella eu sgiliau rheoli arian.

**Pa fesurau diogelu sydd ar waith ar gyfer cyfrinachedd a diogelu data?**
Bydd yr holl ddata sy'n deillio o atebion i'r cwestiynau arolwg yn cael ei brosesu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) cyfredol. Ni fyddwn yn casglu unrhyw wybodaeth

adnabyddadwy bersonol gan bobl ifanc (h.y. ni fyddwn yn casglu enwau). Byddwn yn gofyn rhai cwestiynau am oedran, grŵp blwyddyn a rhywedd y bobl ifanc (y gallant ddewis peidio â'u hateb), i'n helpu i asesu canlyniadau'r gwerthusiad ar sail y ffactorau hyn. Gellir rhoi copi o gwestiynau'r arolwg i chi ar gais.

Ni fyddwn yn enwi unrhyw blant mewn unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a gynhyrchwn. Bydd y data a gesglir o'r arolygon yn cael ei weld gan y tîm ymchwil a Young Money yn unig. Mae Cytundeb Rhannu Data ar waith rhwng Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin a Young Enterprise/Young Money i sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo'n ddiogel rhwng y ddau sefydliad. Bydd yr holl ddata electronig yn cael ei storio ar system gyfrifiadurol ddiogel. Mae rhagor o fanylion am sut mae Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin a Young Money yn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd ar gael yn: www.edin.ac/privacy-research a www.young-enterprise.org.uk/policies.

**Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r gwerthusiad?**
Gallai canlyniadau'r astudiaeth hon gael eu crynhoi mewn erthyglau cyhoeddedig, adroddiadau a chyflwyniadau. Bydd dyfyniadau neu ganfyddiadau allweddol bob amser yn ddienw mewn unrhyw allbynnau ffurfiol, oni bai bod gennym eich caniatâd ysgrifenedig penodol o flaen llaw i'w priodoli yn ôl enw. Ni fyddwn byth yn enwi unrhyw bobl ifanc mewn unrhyw allbynnau cyhoeddedig.

**Pwy alla' i gysylltu ag ef os oes gennyf gwestiynau?**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr astudiaeth, cysylltwch â'r ymchwilydd arweiniol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin, sef yr Athro Tina Harrison Tina.Harrison@ed.ac.uk neu Reolwr y Rhaglen yn Young Money, sef Cerys Wakeman Cerys.Wakeman@y-e.org.uk.

**Llenwch y manylion canlynol ar gyfer eich plentyn**

Ysgol eich plentyn ______________________________

Blwyddyn neu ddosbarth eich plentyn ______________________________

Athro/athrawes eich plentyn ______________________________

Enw llawn eich plentyn ______________________________

**Nodwch a ydych yn rhoi caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan yn yr ymchwil:**

| | YDW | NAC YDW |
|---|---|---|
| Rwy'n rhoi caniatâd i'm plentyn gymryd rhan yn yr arolygon (a ddosberthir trwy ei athro/athrawes). | ○ | ○ |
| Rwy'n rhoi caniatâd i'm plentyn gymryd rhan mewn grŵp ffocws yn ei ysgol (gydag athro/athrawes yn bresennol). Bydd trafodaethau grŵp ffocws yn cael eu recordio. | ○ | ○ |

**Llenwch y manylion canlynol ar gyfer chi eich hun**

Eich enw llawn ______________________________

Eich perthynas â'r plentyn ______________________________

**DIOLCH!**

Bydd eich ymatebion yn cael eu cofnodi gan Ysgol Fusnes Prifysgol Caeredin.

Os ydych wedi rhoi caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan, bydd ei athro/athrawes yn cael gwybod er mwyn sicrhau mai dim ond pobl ifanc y mae eu rhieni wedi rhoi caniatâd iddynt a fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolygon a/neu'r grwpiau ffocws.

Os hoffech roi caniatâd i blentyn arall, llenwch ffurflen arall trwy'r ddolen ganlynol:
Gwerthuso Effaith Mae'ch Arian o Bwys – Ffurflen Caniatâd Rhieni